

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**151 - Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Rheoliad (EC) Rhif 853/2004)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 9 Medi 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydw
Gweithdrefn:	Wedi'i wneud yn gadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 6
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Amherthnasol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Wedi'i wneud yn gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	15 Hydref 2019

Sylwadau

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn egluro diwygiad i gyfraith wrth gefn yr UE a wneir gan Reoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS Rhif 640), sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer cymeradwyo sylweddau y gellir eu defnyddio i gael gwared ar halogiad arwyneb o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, fel y nodir ar hyn o bryd yn Rheoliad yr UE (EC) Rhif 853/2004, sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn darparu mai gweinidogion (ac felly Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru), yn hytrach na'r Asiantaeth Safonau Bwyd, fydd yn gyfrifol am awdurdodi

defnyddio unrhyw sylweddau ychwanegol i gael gwared ar halogiad arwyneb o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn dilyn ymadael â'r UE. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 11 Medi 2019, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.